

**Ar Ddydd Mawrth, 19 Hydref 2010** cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyncoch am 7.00 pm

**PRESENNOL:** Y Cyngorwyr Trefor Davies (Cadeirydd); Mrs Gwenan Price; Mrs Edwina Davies; David Sheppard; Daniel Jones; Mervyn Hughes; Richard Owen, Mrs Kari Walker; D R Morgan a'r cler. Roedd y Cyngorydd Sir D Suter yn bresennol hefyd

- 2885** Derbyniwyd **ymddiheuriadau am absenoldeb** oddi wrth y Cyngorwyr Tegwyn Lewis a Melvyn Evans
- 2886** **Materion Personol** - dim
- 2887** **Datgan Buddiant Personol/Rhagfarnol:** Dim
- 2888** **Cadarnhau Cofnodion:** PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2010 fel cofnod cywir. Trafodwyd y materion canlynol oedd yn codi o'r cofnodion:-  
**Cofnod 2860: Gwasanaeth Sul y Cofio - 14 Tachwedd 2010:** Cadarnhawyd bod trefniadau ar waith i gael Gweinidog locwm i arwain y Gwasanaeth, a chysylltwyd â'r Heddlu a chwaraewr biwgl yn ogystal. Cesglir torch y Cyngor o'r Lleng Prydeinig cyn Sul y Cofio.  
**Cofnod 2884:** Ni chafwyd unrhyw ymateb gan Wasanaethau Amgylcheddol Ceredigion am y cwynion ynghylch sbwriel a gwastraff yn cael ei ddefnyddio i dirlenwi ar safle adeiladu ym Mhenrhyncoch na'r draen sy'n gorlifo ym Mhenbontrhydybeddau.  
Mae Mr A. Hughes wedi cadarnhau y bydd yn gwneud yr hysbysfwrdd ym Mhenrhiw yn fwy cadarn ac yn rhoi concrit ar y step o flaen y fainc ger Banc y Darren
- 2889** **Adroddiadau ar Gyfarfodydd a fynychwyd gan yr Aelodau'n cynrychioli'r Cyngor Cymuned**  
**09 Hydref 2010: Cynhadledd a CCB Un Llais Cymru – Pontrhydfendigaid**  
Mynychwyd gan y Cyngorwyr Trefor Davies a D. Sheppard a roddodd adroddiad llawn ar y pynciau a drafodwyd gan y Siaradwyr, yn arbennig nod a gweledigaeth y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas ag ehangu rôl Cyngorau Tref a Chymuned o fewn llywodraeth leol yn y dyfodol.  
**12 Hydref 2010: SSE Renewables- Fferm Wynt Arfaethedig Nant y Moch - Talybont**  
Mynychwyd gan y Cyng. K Walker a adroddodd ar yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan y Cwmni cyn mynd ati i gyflwyno cais i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith am Orchymyn Caniatâd Datblygu  
**14 Hydref 2010: Cyfarfod Ardal Un Llais Cymru – Aberaeron:** Doedd yr un o'r ddau gynrychiolydd yn rhydd i fynychu'r Cyfarfod ar ran y Cyngor  
**18 Hydref 2010: Comisiwn Cynllunio Seilwaith – Plas Gogerddan**  
Mynychodd y Cyng. R Owen y cyfarfod hwn a gynhaliwyd i esbonio'r prosesau sy'n rhaid i gwmnïau eu dilyn wrth wneud cais am brosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol (ee. ffermydd gwynt), a'r drefn sy'n rhaid i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill ei dilyn os ydyn nhw am gymryd rhan yn y gweithrediadau.  
**Gohebiaeth**
- 2890** **Cyngor Sir Ceredigion – Cyfarfod Ymgynghorol 02.11.10 yn Neuadd Rhydypennau:**  
Gwahoddiad i anfon cynrychiolwyr i Gyfarfod Ymgynghorol gydag Arweinydd a Phrif Weithredwr y Cyngor. PENDERFYNWYD y bydd y Cyngorwyr Trefor Davies a Kari Walker yn mynychu ac yn codi'r cwestiwn o finiau graean ychwanegol ar gyfer manau peryglus o fewn y gymuned.
- 2891** **Neuadd y Penrhyn, Penrhyncoch:** Adroddodd y Cadeirydd fod llythyr wedi'i anfon, mewn ymateb i gais brys gan Bwyllgor y Neuadd, yn cadarnhau cefnogaeth gref y Cyngor i gais y pwyllgor i'r Cynulliad Cenedlaethol am grant adnewyddu.
- 2892** **Age Concern:** Gwahoddiad i'r CCB ar 18/11/10 yn Aberaeron. Cytunodd y Cyng. D Sheppard i fynychu hwn os bydd modd.
- 2893** **Gosod wyneb newydd ar ffordd breifat:** Cais gan drigolion lôn breifat, sydd heb ei mabwysiadu gan y Cyngor, am gymorth tuag at gostau gwella'i chyflwr a gosod wyneb newydd arni. PENDERFYNWYD (i) Peidio â chytuno i'r cais (ii) Cyngori'r ymgeiswyr, os ydyn nhw am wneud cais i gael y lôn wedi'i mabwysiadu ar ôl ei gwella, y bydd angen i'r

gwaith a gyflawnwyd gwrdd â safonau a gytunwyd ymlaen llaw gyda Pheirianwyr y Priffyrdd.

**Cyn gadael y Cyfarfod, adroddodd y Cynghorydd Sir D Suter ar drefniadau graeanu ffyrdd Ceredigion dros y gaeaf nesa'.**

**Materion Ariannol**

**2894 Crynodeb o'r Derbynebau a'r Taliadau ar gyfer yr hanner blwyddyn yn diwedd 30 Medi 2010 (Amg. A)**

Rhodddwyd crynodeb o Gyfrifon y Cyngor hyd 30.09.10, wedi'u gwirio gan Y Cyng. T Davies (Cadeirydd) i bob Aelod. Mae hwn yn dangos balans agoriadol o £3,057 + derbynebau £13,393.82 (£16,451.37), llai gwariant £3,524.40 **sy'n rhoi balans Banc net ar 30 Medi 2010 o £12,926.97.**

Mae datganiad cysoni'r banc yn cadarnhau hyn: Cyfrif Cymunedol £2,943.12 + Cyfrif Busnes *Money Manager* £10,079.08 (£13,022.20) llai sieciau nas cyflwynwyd, rhifau 1001, 1004 a 1005 sef cyfanswm o £95.23: **Balans £12,926.97**

Does dim cyfrifon na newidiadau eraill. **PENDERFYNWYD derbyn y crynodeb o Gyfrifon y Cyngor hyd 30 Medi, 2010.**

**2895 Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2010/2011 (Amg B)**

Y gyllideb ar gyfer 2010/11 yw £15,500 sef Archebiant o £13,000 + £3,057 sydd wedi'i ddwyn ymlaen o'r flwyddyn ariannol 2009/10 (£16,057)

Mae'r arian wedi'i glustnodi fel a ganlyn:

**Gwariant Cyfalaf: £1,500**

**Rhodd-daliadau: £4,500** (gyda £1,000 wedi'i neilltuo ar gyfer Cylch Meithrin Trefeurig os bydd bwriad y Cylch i symud i fan cwrdd amgen gydag ardal chwarae ddiogel yn cael ei wireddu)

**Cronfa Wrth Gefn: £1,500**

**Gwariant Cyffredinol: £8,000**

**Adolygiad o'r gwariant hyd yn hyn a'r gwariant arfaethedig hyd 31 Mawrth 2011**

O fewn yr hanner blwyddyn hyd 30 Medi 2010 yr unig wariant fu £3,524 o'r gyllideb Gwariant Cyffredinol: mae hynny'n cynnwys taliadau gweinyddu; cynnal a chadw; teithio; cyflog a TAW. Roedd y costau £400 yn is na'r amcangyfrif am fod y gwaith o glirio'r llwybr troed wedi'i gyflawni'n rhad ac am ddim, ac ni fu unrhyw aelodau ar gyrsiau hyfforddi. Mae balans o £4,476 ar gael i gwrdd â'r costau gwariant cyffredinol yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol.

**Gwariant Cyfalaf £1,500:** Pan osodwyd y gyllideb, rhagwelwyd y byddai angen polyn baner newydd, ond gwiriwyd yr hen un a barnwyd nad oedd angen un.

PENDERFYNWYD clustnodi'r gyllideb gwariant cyfalaf i brynu cyfrifiadur newydd yn lle un presennol y Cyngor sy'n chwe blwydd oed.

**Rhodd-daliadau (£3,500 + £1,000) - £4,500:** Bydd ceisiadau am rodd-daliadau a dderbynnir gyda mantolen ddiweddar ynghlwm, yn cael eu hystyried yng Nghyfarfod Ionawr 2011. PENDERFYNWYD gosod hysbysiadau ar hysbysfyrdau'r gymuned i roi gwybod am y cynllun.

**Cronfa Wrth Gefn £1,500:** PENDERFYNWYD gadael hwn heb ei newid

**Gwariant Cyffredinol £4,476:** Amcangyfrif y bydd y swm hwn yn ddigon i gwrdd â chostau nas rhagwelwyd hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol. Bydd y £2,000 o gostau trwsio rheiliau'r Gofeb Rhyfel yn dod o hwn, ond bydd yn cael ei ad-dalu gan y cwmni yswiriant.

**PENDERFYNWYD derbyn arolwg cyllideb y Cyngor ar gyfer 2010/11 fel un boddhaol.**

**2896 Power Systems:** Derbyniwyd taliad ffordd-fraint o £9.51 ar gyfer 2010/11 a thalwyd y swm i Gyfrif Cymunedol y Cyngor.

**Cytunwyd i dalu'r biliau canlynol**

**2897 Linda Griffiths:** Cyfieithu Medi 2010: **£60.90** Siec 1008

**2898 GDYT:** Hurio stafell ar gyfer cyfarfod mis Medi **£15.** Siec 1009

**2899 P Walker:** Postio, arian parod a theithio Gorff./Medi 2010: **£54.69** Siec 1010

**2900 Chwaraewr Biwgl:** PENDERFYNWYD awdurdodi'r clerc i wneud taliad o £20 mewn arian parod

**Nodwyd y penderfyniad cynllunio canlynol:**

- 2901 A100543** 14 Glanceulan, Penrhyncoch – estyniad: Wedi'i gymeradwyo
- Sylwadau ar Geisiadau Cynllunio:**
- 2902 A100727** Safle ger Glanseilo, Penrhyncoch – annedd, Llain 2: Dim gwrthwynebiad i'r annedd. Gofyn am wrych o lwyni cynhenid ar hyd ffin ogleddol y safle er mwyn cuddio'r tŷ a sicrhau preifatrwydd ac unffurfiaeth weledol.
- 2903 A100710** Safle ger Glan Seilo, Penrhyncoch - ffordd fynediad, pâr o dai un talcen a chynllun. Dim gwrthwynebiad i'r cynllun a lleoliad y tai (lleiniau 6 a 7) ond cwestiynu p'un ai ydy cynllun y safle'n caniatáu mynediad a pharcio i chwaraewyr a gwylwyr sy'n defnyddio'r cae pêl-droed sy'n ffinio â chornel de-ddwyreiniol y safle. Y Cyngor yn ailadrodd ei gais am wrych o lwyni cynhenid ar hyd ffin ogleddol y safle i guddio'r tai o'r briffordd a'r llwybr troed sy'n ffinio â'r safle, a sicrhau unffurfiaeth weledol.
- 2904 Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 16 Tachwedd, 2010 yn Hen Ysgol Trefeurig am 7.00 pm**
- 2905 Cytunwyd i osod yr eitemau canlynol ar yr agenda:**  
Dŵr gormodol ar wyneb y ffordd ger Bryntirion, Penrhyncoch  
Yr angen am arwyddion yn dangos sut i gyrraedd stadau Garnwen a Dôl Helyg, Penrhyncoch  
Tipio anghyfreithlon: rwbwl adeiladu a gwastraff gardd – mynedfa i'r goedwig ger Gwarffin, Penrhiwnnewydd

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.45 pm

660

69